

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 6 AWST 2021

Yn Cynghorydd Derbyshire(Cadeirydd)
bressenol: Cynghorwyr Bowen-Thomson a/ac Sattar

10 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

11 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - CORNER COFFEE, STRYD FAWR

Yn bresennol:

Ymgeiswyr: Laura McDonald, Corner Coffee Union Ltd

Awdurdodau Cyfrifol: Tony Bowley, Heddlu De Cymru; Rhys Morgan, Gorfodi
Trwyddedu

Y Cais

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan Corner Coffee Union Ltd mewn perthynas â Corner Coffee, 13 Stryd Fawr, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd): "Rydym yn siop goffi fach yng Nghanol Dinas Caerdydd. Mae'r bar siop goffi a'r man eistedd wedi'u lleoli ar y llawr Gwaelod, sydd â drws i Arcêd y Stryd Fawr, yn ogystal â drws i'r Stryd Fawr. Mae gennym doiled, cegin a Swyddfa Staff yn yr Islawr. Mae gennym 13 o orchuddion y tu mewn ar y llawr gwaelod, yn ogystal â 10 gorchudd yn Arcêd y Stryd Fawr, a 22 o orchuddion awyr agored o flaen y caffi, ar y Stryd Fawr. Rydym wedi gweld datblygiad ein rhan ni o'r dref fel cyrchfan i bobl ymweld ag ef i gael diod a phryd bwyd allan mwy moethus, wedi'i wella gan lleoliadau fel Pasture yn cyrraedd. Mae wedi bod yn wych gweld yr ardal yn dod yn ganolfan o'r fath, gyda bwrlwm hyfryd gyda'r nos gan fod cymaint o fariau cyfagos yn cynnig profiadau bwyta awyr agored gwych. Mae ein hardal eistedd awyr agored yn cael yr haul yn hwyrach nag unrhyw fusnes arall ar ein stryd felly byddai hyn yn fantais fawr, a chredwn y byddai cynnig alcohol o safon yn cyd-fynd yn dda â'n brand, lleoliad a'n sylfaen cwsmeriaid. Byddai'r dewis alcohol yn gyfyngedig ond o ansawdd uchel - cwrw crefft lleol yn bennaf (caniau a photeli yn unig) a gwinoedd o safon. Hoffem ganiatáu i fynychwyr yfed y diodydd hyn ym mhob gorchudd a grybwyllir uchod, yn ogystal â'u cymryd i ffwrdd".

(3) Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol: Dydd Llun a Dydd Mawrth: 9:00am i 5:00pm, Dydd Mercher i ddydd Sul: 9:00am i 11:00pm

(4) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol: (i) Gwerthu drwy fanwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle: Dydd Mercher i ddydd Sul 3:00pm tan 11:00pm

Sylwadau'r Ymgeisydd

Amlinellodd yr Ymgeisydd y pwyntiau allweddol yn y cais. Ers i Corner Coffee agor mae ardal y Stryd Fawr wedi mynd yn brysurach gyda dyfodiad Pasture yn ychwanegu at y busnes. O dan yr amgylchiadau, credai'r Ymgeisydd y byddai'n dda i'r busnes gael trwydded alcohol i werthu cwrw a gwin gyda'r nos. Ar hyn o bryd mae Corner Coffee yn cau am 9:00pm er mai dyma'r unig sefydliad yn yr ardal lle mae'r haul yn tywynnu ar y byrddau ar yr adeg hynny.

Nod Corner Coffee yw darparu coffi o ansawdd uchel yn ystod y dydd a hoffai'r Ymgeisydd ychwanegu at hynny gyda gwerthu cwrw a gwin o safon gyda'r nos. Maent yn gobeithio denu cyplau sy'n cael diod cyn symud i bryd o fwyd mewn bwyty lleol, neu bobl ar eu ffordd adref o'r gwaith. Maent yn gobeithio creu awyrgylch hamddenol gyda gwasanaeth bwrdd yn unig.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a oedd yr Ymgeisydd yn bwriadu gwerthu alcohol o'r cownter neu wrth y bwrdd yn unig. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad oedd ganddynt unrhyw fwriad i gyflwyno yfed wrth sefyll a byddai gwerthiant alcohol yn cael ei gyfyngu i wasanaeth bwrdd yn unig. Roeddent wedi gwneud cais am werthiannau oddi ar y safle hefyd ond roeddent yn barod i roi'r gorau i hynny.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a oedd yr Ymgeisydd yn barod i dderbyn yr amodau a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru. Dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor fod yr Ymgeisydd yn hapus i dderbyn yr holl amodau ac eithrio Amod 2, alcohol i'w werthu gyda phrydau bwrdd. Ni allent dderbyn yr amod hwn am nad ydynt yn gweini prydau bwrdd yn ystod y dydd.

Holodd Mr Bowley a oedd gan yr Ymgeisydd brofiad blaenorol o werthu alcohol mewn bariau neu fwytai yng nghanol dinas Caerdydd. Cadarnhaodd yr Ymgeiswyr eu bod wedi gweithio mewn tafarndai a bariau yn y DU a thramor dros nifer o flynyddoedd.

Holodd Mr Morgan a fyddai'r gwerthiant mewn cynwysyddion wedi'u selio, cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddent.

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Dywedodd Mr Bowley fod Heddlu De Cymru wedi gwrthwynebu'r cais o dan yr amcanion trwyddedu Atal Trosedd ac Anhrefn, Diogelwch y Cyhoedd ac Atal Niwsans Cyhoeddus. Mae'r safle o fewn Parth Dirlawn Canol y Ddinas ac mae'n amodol ar y polisi Effaith Gronnol. Mae swm anghymesur o drosedd ac anhrefn yn gysylltiedig â siopau sy'n gwerthu alcohol a byddai ychwanegu man arall yn ychwanegu at y broblem. Mae'r Heddlu'n chwilio am 8 amod y mae'n ymddangos

bod pob un ohonynt yn cael eu cytuno, ac eithrio dim ond gweini alcohol i gwsmeriaid sydd â phryd wrth y bwrdd.

Dyweddodd Mr Bowley fod y cais ar gyfer bar a barn Heddlu De Cymru oedd bod gan Ganol y Ddinas ddigon o fariâu'n barod, ond nad oedd ganddyn nhw wrthwynebiad i fwytai. Nid yw'r cais yn rhan o'r parthau o fath safle Gwyrdd neu Ambr o fewn y Polisi Effaith Gronnol, a gofynnodd yr Heddlu i'r Is-bwyllgor wrthod y cais ar y sail honno.

Holodd yr Ymgeisydd a oedd Heddlu De Cymru yn ystyried y cais fel un a oedd yn cyflwyno risg o drosedd ac anhrefn yng Nghanol y Ddinas. Dywedodd Mr Bowley fod data'r Heddlu yn nodi po fwyaf o allfeydd oedd yn gwerthu alcohol, y mwyaf o droseddau cysylltiedig ag alcohol oedd yn gysylltiedig â hwy. Gall ychwanegu man arall ond ychwanegu at y broblem. Mae rhai siopau sy'n gweini alcohol yn gweithredu heb unrhyw broblemau ar eu safle. Mae'n anodd mesur sut mae cwsmeriaid yn ymddwyn yn ddiweddarach wrth yfed mwy o ddiodydd.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar lefel y troseddau a'r anhrefn a gofnodwyd ger y safle. Dywedodd Mr Bowley bod y wybodaeth yn y dogfennau ar sail stryd fesul stryd. Nid oedd ganddo unrhyw wybodaeth benodol am y safle, nad yw wedi cael trwydded alcohol o'r blaen.

Holodd yr Aelodau a oedd gwybodaeth am lefel trosedd ac anhrefn o amgylch gwahanol fathau o sefydliad. Dywedodd Mr Bowley nad oedd ganddo unrhyw wybodaeth benodol y gallai ei chyflwyno i'r Is-bwyllgor heddiw. Fel swyddog trwyddedu profiadol, gallai ddweud bod y nifer fwyaf o ddigwyddiadau mewn clybiau nos, ac yna tai lluniaeth hwyr y nos, tafarndai, bariâu, bwytai a chaffis. Po fwyaf dan reolaeth oedd y cwsmeriaid, y mwyaf positif oedd yr effaith ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dyweddodd Mr Morgan fod asesiad Gorfodi Trwyddedu o'r cais yn dangos bod ganddo'r potensial ar gyfer yfed wrth sefyll, gan ei roi o dan y Polisi Effaith Cronnol o fewn y categori coch. Mae'r cyflwyniad gan yr Ymgeisydd yn dangos nad bwyty yw'r sefydliad ac nid yw'n ymarferol iddo ddod yn un er mwyn cael gwerthiant alcohol. Byddai angen i'r Is-bwyllgor adolygu'r wybodaeth ac asesu a oedd unrhyw un o'r amcanion Trwyddedu yn cael eu tansilio. Byddai cynigion yr Ymgeisydd yn caniatáu yfed ar y safle tan 11:00pm. Cynigir bwyd tan 5:00pm.

Dyweddwyd wrth yr Aelodau fod yr Ymgeisydd wedi derbyn yr amodau a gyflwynwyd gan Orfodi Trwyddedu. Diben y polisi yw cefnogi sefydliadau sy'n cael eu rhedeg yn dda. Anogwyd yr Is-bwyllgor i dderbyn y mesurau a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd ac asesu a ydynt yn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. O dan ei ffurf bresennol, ystyrir bod y safle'n perthyn i'r categori coch, ond roedd yn amlwg o'r wybodaeth a gyflwynwyd y byddai'n bosibl ei thynnu tuag at y categori ambr pe bai'r mesurau'n cael eu mabwysiadu.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a fyddai Gorfodi Trwyddedu yn dal i wrthwynebu'r cais o ystyried bod yr Ymgeiswyr yn derbyn yr amodau. Dywedodd Mr Morgan y dylai'r Pwyllgor ystyried y cais oherwydd ei fod o'r farn ei fod yn dod o dan y categori coch, ond mae Gorfodi Trwyddedu wedi cymryd camau i 'uno' yr hyn a fyddai'n gategori coch i mewn i gategori ambr. Mae rhai o'r mesurau arfaethedig wedi'u mabwysiadu gan yr Ymgeisydd, ond heb i bob un ohonynt gael eu

mabwysiadu a'r busnes yn cael ei arwain gan fwyd yn bennaf, byddai'n dal i fod yn safle rhestredig coch.

I grynhoi

Crynhodd Mr Bowley yr achos dros yr Heddlu gan ddweud mai'r cwestiwn i'r Heddlu oedd a fyddai, pe bai'r cais hwn yn cael ei ganiatáu, yn tanseilio amcanion trwyddedu'r Cyngor.

Ailadroddodd Mr Morgan fod model busnes yr Ymgeisydd yn disgyn rhwng gwahanol gategoriâu. Yr oedd yn fusnes a oedd yn bwriadu ehangu ar ôl cyfyngiadau'r cyfnod diweddar, ond yr oedd yn bwysig cadw mewn cof egwyddorion cyffredinol effaith gronnol. Pe bai'r Is-bwyllgor yn ystyried y mesurau a gyflwynwyd yn ddigonol i oresgyn y pryderon hynny, byddai Gorfodi Trwyddedu yn argymhell eu bod yn cael eu hystyried yn amodau.

Ailadroddodd yr Ymgeisydd eu bod yn fusnes bach a'u bod yn bwriadu i'r mesur gynyddu trosiant a chynnig awyrgylch hamddenol ar y stryd.

PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, CYMERADWYODD yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

Clywodd yr Is-bwyllgor gan yr ymgeisydd a gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Ystyriodd yr Is-bwyllgor hefyd Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a'i Ddatganiad Polisi Trwyddedu ei hun.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor hefyd y sylwadau a wnaed gan Heddlu De Cymru a Gorfodi Trwyddedu ac ystyriodd yr holl sylwadau ysgrifenedig.

Mae'r safle mewn ardal a gwmpesir gan Bolisi Effaith Gronnol sy'n creu'r rhagdybiaeth wrthbrofadwy y bydd unrhyw geisiadau newydd neu wedi'u hamrywio am Drwyddedau Safle yn cael eu gwrthod neu eu cyfyngu oni bai y gall yr ymgeisydd ddangos yn llwyddiannus na fydd rhoi'r cais yn ychwanegu at yr effaith gronnol yn yr ardal. Mae'r Is-bwyllgor wedi cytuno y byddai'r Polisi Effaith Gronnol yn berthnasol i'r cais hwn.

Mae'r Is-bwyllgor yn nodi bod yr ymgeisydd wedi derbyn amodau arfaethedig Heddlu De Cymru yn Atodiad C ac eithrio'r Amod 2 arfaethedig, ac mae hefyd wedi derbyn yr holl amodau arfaethedig o Orfodi Trwyddedu yn Atodiad D yr adroddiad.

Ar ôl ystyried y cyflwyniadau'n ofalus heddiw a'r deunydd ysgrifenedig, mae'r Is-bwyllgor yn teimlo nad oes gan gynigion o fewn y cais y potensial i danseilio'r amcanion trwyddedu.

Felly, mae'r Is-bwyllgor yn penderfynu caniatáu'r cais yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt uchod.

12 : EITEMAU BRYG (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion bryg i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 am